HM Courts &
Tribunals Service

**Crynodeb o'r newidiadau allweddol i'r ffurflen gwrandawiadau pledio a pharatoi ar gyfer treial (fersiwn bapur - PTPH2) i'w defnyddio o'r 22ain o Orffennaf 2019 ymlaen ar gyfer gwrandawiadau PTPH o'r 29ain Orffennaf 2019 ymlaen**

1. **Un tabl 'Tystion dros yr erlyniad y mae gofyn iddynt fynychu'r llys'**
    - Erbyn hyn mae un tabl 'Tystion dros yr erlyniad y mae gofyn iddynt fynychu'r llys' sydd i'w weld yn gynnar yn adran y gorchmynion barnwrol, ond y dylai pob parti gyfrannu ato.

2. **Newidiadau i wybodaeth a ddarparwyd gan yr erlyniad**
    - Mae blwch Dyddiad Anfon wedi'i ychwanegu at dabl manylion y diffynnydd i'w gwblhau gan Wasanaeth Erlyn y Goron.
    - Ychwanegwyd cwestiwn ychwanegol at yr Wybodaeth gan yr Erlyniad ar gyfer y PTPH: 'A ddarparwyd Dogfen Reoli Dadlennu?'
    - Mae'r tabl 'Tystion dros yr erlyniad y mae gofyn iddynt fynychu'r llys' wedi cael ei symud i'r adran farnwrol ar y ffurflen; mae angen i'r erlyniad lenwi rhannau o'r tabl.

3. **Newidiadau i wybodaeth a ddarperir gan yr amddiffyniad**
    - Mae'r ddau gwestiwn sy'n ymwneud â thrawsddatgelu bellach wedi'u hepgor gan fod adran am droseddau gydag mwy nag un diffynnydd ar gael.
    - Gofynnir rhagor o gwestiynau i'r amddiffyniad ac maent wedi cael eu hailddylunio hefyd. Mae'r cwestiynau ychwanegol yn ymwneud yn bennaf â materion datgelu ac adnabod diffynyddion sy'n ifanc, sy'n agored i niwed neu sy'n dioddef o gaethwasiaeth fodern fel y gellir gwneud gorchmynion neu ymchwiliadau priodol yn y PTPH.
    - Mae'r tabl  Tystion dros yr erlyniad y mae gofyn iddynt fynychu'r llys' wedi cael ei symud i'r adran farnwrol ar y ffurflen. Mae angen o hyd i'r amddiffyniad lenwi rhannau o'r tabl hwn. Yn ogystal â hynny, mae tabl "Gwyddys pwy yw'r Cyfryngwyr yn y Gwrandawiad Pledio a Pharatoi ar gyfer Treial" oddi tano ac mae'n rhaid iddynt lenwi hwnnw hefyd os yw'n hysbys yn y PTPH y bydd gan dyst neu ddiffynnydd ganolwr fel y gellir ystyried argaeledd y cyfryngwr wrth bennu dyddiad ar gyfer y treial.
    - Mae modd i'r erlyniad nodi ar y ffurflen a yw Dogfen Rheoli Datgeliadau (DMD) wedi'i chyflwyno ac, os felly, dylai'r amddiffyniad ddangos a yw'r gwasanaeth DMD yn ddigonol ac os nac ydy, egluro pam mai felly y mae? Ceir darpariaeth hefyd ar gyfer yr amddiffyniad i nodi llinellau holi rhesymol a nodi'r hyn y maent yn ei ddweud yw "lefel briodol yr wybodaeth y dylid ei thynnu" o ddyfeisiau symudol a chyfrifiaduron.

4. **Cynnwys wedi'i ddiweddaru**
    - Mynegir rhai cyfarwyddiadau barnwrol yn wahanol er mwyn ymdrin â newidiadau yn y gyfraith neu arfer a wnaed ers cyflwyno'r ffurflen PTPH wreiddiol.
    - Mae adran 28 wedi'i chategoreiddio, gyda chyfarwyddiadau gwahanol ar gyfer tystion sy'n agored i niwed a thystion dan fygythiad. Ceir adran newydd sylweddol hefyd ar gyfer diffynyddion sy'n agored i niwed.

5. **Aildrefnu adrannau i fod yn haws eu defnyddio**
    - Mae'r adrannau wedi'u trefnu'n fwy rhesymegol, er enghraifft mae dyddiad y treial bellach wedi'i bennu cyn unrhyw wrandawiadau canolradd.
6. **Rhagor o wybodaeth**
    - Dylai defnyddwyr gyfeirio at y Cyfarwyddyd Ymarfer Troseddol a'r Better Case Management Handbook 2018 am ragor o wybodaeth am y ffurflen PTPH.

10 Gorffennaf 2019